Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 62 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 ac adran 93(10) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

2010 Rhif (Cy.)

AMGYLCHEDD, CYMRU

TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

Rheoliadau Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys yng Nghymru, yn diwygio—

Rheoliadau Llaid (Ei Ddefnyddio mewn Amaethyddiaeth) 1989 (O.S. 1989/1263)

Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr) 2000 (O.S. 2000/1043)

Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1806 (Cy.138))

Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007 (O.S. 2007/871)

Mae'r diwygiadau'n caniatáu i Asiantaeth yr Amgylchedd osod sancsiynau sifil penodedig mewn perthynas â rhai thoriadau o'r Rheoliadau hynny. Y sancsiynau yw'r rhai a ganiateir o dan Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008.

Paratowyd asesiad effaith ar gyfer y Rheoliadau hyn. Mae copi ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 62 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 ac adran 93 (10) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2010 Rhif (Cy.)

AMGYLCHEDD, CYMRU

TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

Rheoliadau Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2010

Wedi'u gosod mewn drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ***

Wedi'u gwneud ***

Yn dod i rym *15 Gorffennaf 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan—

adrannau 93, 94 a 95 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**1**);

adran 62 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008(**2**); ac

adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**3**). (Mae Gweinidogion Cymru wedi'u

(**1**) 1995 p.25. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 93 i 95 cyn belled ag sy'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraffau 26 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny wedi'u breinio bellach yng Ngweinidogion Cymru. Diwygiwyd adran 94 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 gan O.S. 2000/311, erthyglau 28(1) a (2) ac O.S. 2004/1261, rheoliad 5 ac Atodlen 2, paragraffau 7(1) a (2).
(**2**) 2008 p.13.
(**3**) 1972 p.68.

dynodi (**1**) at ddibenion y Ddeddf honno o ran mesurau sy'n ymwneud ag atal, lleihau a dileu llygredd a achosir gan wastraff a rheoli deunydd pacio a gwastraff deunydd pacio, o ran llygrynnau organig parhaus, sylweddau, paratoadau a chemegau peryglus, o ran mesurau sy'n ymwneud ag adnoddau dŵr, ac o ran mesurau sy'n ymwneud â rheoleiddio a rheoli defnyddio llaid carthion mewn amaethyddiaeth).

Yn unol ag adran 93(2) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r cyrff a'r personau hynny y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli cyrff neu bersonau y mae'r Rheoliadau hyn yn effeithio'n sylweddol arnynt; mae Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni, yn unol ag adran 93(3) o'r Ddeddf honno, o ran y materion a bennir yn adran 93(6) o'r Ddeddf honno; ac mae Gweinidogion Cymru yn arfer y pŵer hwn yn y modd y bennir ei fod yn orau i sicrhau nad yw'n arwain at gyfyngu, aflunio neu atal cystadleuaeth yn unol ag adran 93(7) o'r Ddeddf honno.

Yn unol ag adran 66 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 mae Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion y cyfeirir atynt yn adran 5(2) o'r Ddeddf honno wrth arfer y pwerau yn y Rheoliadau hyn.

Mae drafft o'r rheoliadau hyn wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo yn unol ag adran 62 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 ac adran 93(10) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**2**).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2010; maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 15 Gorffennaf 2010.

(**1**) Dynodwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'r materion hyn gan O.S. 2005/850, O.S. 2007/1349 ac O.S 2000/2812. Yn rhinwedd adran 162 a pharagraff 28(1) a 30 o atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae'r pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd y dynodiadau hyn wedi'u breinio bellach yng Ngweinidogion Cymru.

(**2**) 1995 Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 34 o Atodlen 11 iddi, mae adran 93(10) yn gymwys i'r modd y mae Gweinidogion Cymru yn arfer y swyddogaeth o wneud is-ddeddfwriaeth, fel petai'r cyfeiriad yn y ddarpariaeth honno at Ddau Dŷ'r Senedd yn gyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Diwygio Rheoliadau Llaid (Ei Ddefnyddio mewn Amaethyddiaeth) 1989

2. Diwygir Rheoliadau Llaid (Ei Ddefnyddio mewn Amaethyddiaeth 1989 (**1**) drwy fewnosod y canlynol ar ôl rheoliad 10—

"Civil sanctions, Wales

11.—(1) The Environment Agency may impose a fixed monetary penalty, variable monetary penalty, restoration notice, compliance notice or stop notice, or accept an enforcement undertaking, in relation to an offence under regulation 9 for contravening a provision in the following Table of civil sanctions, as indicated in that Table, as if it were an offence under a provision specified in relation to that sanction in Schedule 5 to the Environmental Civil Sanctions (Wales) Order 2010.

(**1**) O.S. 1989/1263; offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1990/880, O.S. 1996/593, O.S. 2000/656, ac O.S. 2010/1159.

Table of civil sanctions

Provision of these Regulations	*Fixed monetary penalty*	*Variable monetary penalty*	*Restoration notice*	*Compliance notice*	*Stop notice*	*Enforcement undertaking*
regulation 3	No	Yes	Yes	Yes	Yes	Yes
regulation 4	Yes	Yes	No	No	Yes	Yes
regulation 5	Yes	Yes	No	No	No	Yes
regulation 6(1)	No	Yes	No	Yes	No	Yes
regulation 7(1)	No	Yes	No	Yes	No	Yes
regulation 7(2)	Yes	Yes	No	Yes	No	Yes
regulation 8(3)(a)	No	Yes	No	No	Yes	Yes
regulation 8(3)(b)	No	Yes	Yes	No	Yes	Yes
regulation 8(4)	No	Yes	Yes	No	Yes	Yes

(2) The terms used in this regulation have the same meaning as in that Order.

(3) The provisions of that Order in relation to those sanctions apply as if they were provisions of these Regulations.

(4) This regulation applies only in Wales.".

Diwygio Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr) 2000

3. Diwygir Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr) 2000(**1**) drwy fewnosod y canlynol ar ôl rheoliad 13A—

"Civil sanctions

13B.—(1) The Environment Agency may impose a fixed monetary penalty, variable monetary penalty or compliance notice, or accept an enforcement undertaking, in relation to an offence specified in the following Table of civil sanctions, as indicated in that Table, as if it were an offence under a provision specified in relation to that sanction in Schedule 5 to the Environmental Civil Sanctions (Wales) Order 2010.

(**1**) O.S. 2000/1043, a ddiwygiwyd gan O.S. 2000/3359, ac O.S. 2010/1159. Ceir offerynnau diwygio eraill ond nid oes un yn berthnasol.

Table of civil sanctions

Offence under these Regulations	*Fixed monetary penalty*	*Variable monetary penalty*	*Compliance notice*	*Enforcement undertaking*
regulation 13(1)	Yes	Yes	Yes	Yes
regulation 13(2)(a)	Yes	Yes	Yes	Yes
regulation 13(2)(b)	Yes	Yes	No	Yes
regulation 13(2)(c)(i)	Yes	Yes	No	Yes
regulation 13(2)(c)(ii)	Yes	Yes	No	Yes
regulation 13(2)(c)(iii)	Yes	Yes	No	Yes
regulation 13(3)	Yes	Yes	No	Yes
regulation 13(4)(a)	No	Yes	No	No
regulation 13(4)(b)	No	Yes	No	No
regulation 13(4)(c)	No	Yes	No	No

"(2) The terms used in this regulation have the same meaning as in that Order.

(3) The provisions of that Order in relation to those sanctions apply as if they were provisions of these Regulations.

(4) This regulation applies only in Wales.".

Diwygio Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

4. Diwygir Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005(**1**) drwy fewnosod y canlynol ar ôl rheoliad 65—

"Sancsiynau sifil

65A.-(1) Caiff Asiantaeth yr Amgylchedd osod cosb ariannol newidiol, hysbysiad adfer, hysbysiad cydymffurfio neu hysbysiad stop, neu dderbyn ymgymeriad gorfodi, o ran tramgwydd o dan reoliad 68 neu o dan reoliad 65 am fethu â chydymffurfio â darpariaeth (ac eithrio rheoliad 68) yn y Tabl canlynol o sancsiynau sifil, fel y nodir yn y Tabl hwnnw, fel pe bai'n dramgwydd o dan ddarpariaeth a bennir mewn perthynas â'r sancsiwn hwnnw yn Atodlen 5 i Orchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010.

(**1**) O.S. 2005/1806 (Cy.138); offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2007/3538, ac O.S. 2009/2861 (Cy.250).

Tabl o sancsiynau sifil

Y tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn	*Cosb ariannol newidiol*	*Hysbysiad adfer*	*Hysbysiad cydymffurfio*	*Hysbysiad stop*	*Ymgymeriad gorfodi*
rheoliad 19	Ie	Ie	Ie	Ie	Ie
rheoliad 20	Ie	Ie	Ie	Ie	Ie
rheoliad 22	Ie	Nage	Nage	Nage	Ie
rheoliad 34	Ie	Nage	Ie	Nage	Ie
rheoliad 35	Ie	Nage	Ie	Nage	Ie
rheoliad 36	Ie	Nage	Ie	Nage	Ie
rheoliad 37	Ie	Nage	Ie	Nage	Ie
rheoliad 38	Ie	Nage	Ie	Nage	Ie
rheoliad 39	Ie	Nage	Ie	Nage	Ie
rheoliad 40	Ie	Nage	Ie	Nage	Ie
rheoliad 41	Ie	Nage	Ie	Nage	Ie
rheoliad 42	Ie	Nage	Ie	Nage	Ie
rheoliad 43	Ie	Nage	Ie	Nage	Ie
rheoliad 44	Ie	Nage	Ie	Nage	Ie
rheoliad 46 ac Atodlen 7	Ie	Nage	Ie	Nage	Ie
rheoliad 47	Ie	Nage	Ie	Nage	Ie
rheoliad 48	Ie	Nage	Ie	Nage	Ie
rheoliad 49	Ie	Nage	Ie	Nage	Ie
rheoliad 50	Ie	Nage	Ie	Nage	Ie
rheoliad 51	Ie	Nage	Ie	Nage	Ie
rheoliad 53	Ie	Nage	Nage	Nage	Ie
rheoliad 54	Ie	Nage	Nage	Nage	Ie
rheoliad 55	Ie	Nage	Nage	Nage	Nage
rheoliad 62	Ie	Ie	Ie	Ie	Nage
rheoliad 68	Ie	Nage	Nage	Nage	Nage

(2) Mae i'r termau a ddefnyddir yn y rheoliad hwn yr un ystyr ag yn y Gorchymyn hwnnw.

(3) Mae darpariaethau'r Gorchymyn hwnnw'n gymwys mewn perthynas â'r sancsiynau hynny fel pe baent yn ddarpariaethau yn y Rheoliadau hyn.".

Diwygio Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007

5. Diwygir Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007(**1**) drwy fewnosod y canlynol ar ol rheoliad 40A—

"Civil sanctions, Wales

40B.—(1) The Environment Agency may impose a fixed monetary penalty or variable monetary penalty, or accept an enforcement undertaking, in relation to an offence specified in the following Table of civil sanctions, as indicated in that Table, as if it were an offence under a provision specified in relation to that sanction in Schedule 5 to the Environmental Civil Sanctions (Wales) Order 2010.

Table of civil sanctions

Offence under these Regulations	*Fixed monetary penalty*	*Variable monetary penalty*	*Enforcement undertaking*
regulation 40(1)(a)	Yes	Yes	Yes
regulation 40(1)(b)	No	Yes	Yes
regulation 40(1)(c)	Yes	No	No
regulation 40(3)	No	Yes	Yes
regulation 40(7)	No	Yes	No
regulation 40(8)(a)	No	Yes	Yes
regulation 40(8)(b)	Yes	No	No

(2) The terms used in this regulation have the same meaning as in that Order.

(3) The provisions of that Order in relation to those sanctions apply as if they were provisions of those Regulations.

(**1**) O.S. 2007/871, a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/1159; ceir offerynnau diwygio eraill ond nid oes un yn berthnasol.

(4) This regulation applies only in Wales.”.

Llofnod

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynalidwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad